Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Clercod Cynghorau Cymuned a Thref

Cyfarwyddwyr Cyllid

Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol

Tachwedd 2022

Annwyl Glerc,

**Swm priodol o dan adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 -**

**terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2023-24**

Dyma eich hysbysu mai'r swm priodol at ddibenion adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (Deddf 1972) ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 yw £9.93.

Mae adran 137(1) o Ddeddf 1972 yn caniatáu i bob Cyngor Cymuned neu Dref ysgwyddo gwariant at ddibenion nad oes ganddo ddim pwerau penodol eraill ar eu cyfer os yw'r Cyngor o'r farn bod y gwariant er budd yr ardal neu unrhyw ran ohoni, neu'r cyfan neu rai o'i thrigolion, ac y bydd yn dod â budd uniongyrchol i'r rhain, ar yr amod bod y budd yn gymesur â'r gwariant a ysgwyddir. O dan adran 137(3), caniateir hefyd i Gynghorau Cymuned a Thref ysgwyddo gwariant at ddibenion elusennol ac eraill a bennir. Uchafswm y gwariant y gellir ei ysgwyddo o dan adran 137(1) a (3) ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24, yn y ddau achos, fydd £9.93 fesul etholwr.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24, cyfrifir y swm priodol at ddibenion adran 137(4)(a) drwy gymhwyso'r fformiwla a nodir yn Atodlen 12B i Ddeddf 1972. Cynyddodd y Mynegai Prisiau Manwerthu 12.6% rhwng mis Medi 2021 a mis Medi 2022. Mae hyn yn golygu, drwy gymhwyso'r fformiwla, fod y swm priodol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 yn cynyddu o £8.82 i £9.93 fesul etholwr.

Er eglurder, mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi 'cynghorau cymuned cymwys' i arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol. Daeth y pŵer i Gynghorau Cymuned a Thref arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol i rym ar 5 Mai 2022.

Welsh Government / Llywodraeth Cymru
Cathays Park / Parc Cathays,
Cardiff / Caerdydd.  CF10 3NQ

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r ***canllawiau statudol perthnasol ar gyfer cynghorau cymuned a thref*** yn egluro'r modd y mae'r ddau bŵer (h.y. y pŵer cymhwysedd cyffredinol a'r pŵer o dan adran 137 o Ddeddf 1972) yn rhyngweithio â'i gilydd. Nid yw cynghorau cymuned a thref sy'n arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol yn destun terfyn gwariant, ond mae amodau eraill yn berthnasol. Yn achos pob cyngor cymuned a thref arall, bydd y terfyn a nodir yn y llythyr hwn yn berthnasol.

Yn gywir

**Martin Bull**
**Yr Is-adran Polisi a Chynaliadwyedd Cyllid Llywodraeth Leol**

Welsh Government / Llywodraeth Cymru
Cathays Park / Parc Cathays,
Cardiff / Caerdydd.  CF10 3NQ